# Blaenoriaethau ar gyfer Sector y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Delwedd y clawr: Brave New World (© Steve Schofield/Peacock)
Isod: Skills Guru Live (© BAFTA Cymru)

**Fy ngweledigaeth i ar gyfer Cymru Greadigol yw creu sefydliad a fydd yn adeiladu ar y llwyddiannau presennol yn y diwydiant sgrin i sbarduno twf ar draws y sector cyfan; gan ddatblygu sylfaen sgiliau o'r radd flaenaf, ymestyn y gefnogaeth i rannau eraill o'r sector a sicrhau fod Cymru'n cael ei gweld fel y lle delfrydol i leoli eich busnes creadigol.**



# Cyflwyniad

Mae'r diwydiannau creadigol ymhlith y sectorau sydd wedi gweld y twf cyflymaf yn economi Cymru ers sawl blwyddyn. Mae'r sector yn gwneud mwy na dim ond creu swyddi a chyfoeth – mae'n cyfrannu at frand cenedlaethol cryf ac yn helpu i hyrwyddo Cymru, ei diwylliant a'i doniau i'r byd. Mae cymdeithas sy'n greadigol yn yr ystyr ehangaf yn hyrwyddo lles a chymdeithas fwy cynhwysol.

Er bod y diwydiannau creadigol wedi symud erbyn hyn i'm portffolio Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, mae ei bwysigrwydd o ran sbarduno'r economi yn parhau ac rydw i'n falch iawn o'r hyn y mae'r sector wedi'i gyflawni yn ystod blynyddoedd diweddar, ac y bydd yn parhau i'w gyflawni gyda chymorth uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Yn benodol, mae ein cymorth ar gyfer y Diwydiant Sgrin, sy'n cynnwys ein cymorth i Bad Wolf i alluogi'r cwmni i sefydlu yng Nghymru a darparu cynyrchiadau o safon uchel iawn o'r stiwdio ym Mae Caerdydd. Mae'r cwmni eisoes wedi cwblhau cyfres gyntaf Sky One, *A Discovery of Witches*, a bydd yr ail gyfres yn cychwyn ffilmio yn Stiwdios Pinewood Cymru dros y misoedd nesaf, law yn llaw ag *Industry* HBO.

Rydym wedi buddsoddi hefyd mewn doniau lleol o'r radd flaenaf fel Gareth Evans gyda'i ffilm *Apostle* ar Netflix a'i gyfres deledu *Gangs of London*, a fydd yn cael ei darlledu cyn bo hir, yn ogystal â darparu cymorth ar gyfer y gyfres *Sex Education* gan Netflix a oedd yn llwyddiant byd-eang.

Rydym wedi gwneud cyfraniad sylweddol i dwf y diwydiant technegol yng Nghymru – sydd erbyn hyn yn cyflogi 40,000 a mwy o bobl ac sy'n werth £8.5 biliwn mewn trosiant i economi Cymru. Fe wnaeth cymorth gan y Gronfa Datblygu Digidol rhwng 2012 a 2016 helpu i feithrin ton newydd o fusnesau digidol creadigol arloesol – er enghraifft Wales Interactive – dylunydd a chyhoeddwr gemau o Ben-y-bon ar Ogwr, Pwinty, cwmni technoleg argraffu ffotograffau a MyPinPad – cwmni sy'n datblygu technoleg mynediad diogel. Mae entrepreneuriaid yr oes sydd ohoni'n creu cyfoeth drwy wahanol fath o arloesedd nag a welwyd yn y gorffennol. Maen nhw'n ymwybodol o faterion technegol, ac mae eu dulliau marchnata, brandio a gweithredu drwy gyfryngau digidol yn rhan gwbl annatod o'u cynhyrchion a'u gwasanaethau ac mae eu gweithrediadau'n efelychu hynny hefyd yn yr un modd. Yn amlach na pheidio, maen nhw'n creu cwmnïau arloesol sy'n seiliedig ar fodel busnes – neu'n arloesi drwy wasanaethau a darparu yn hytrach nag eiddo deallusol traddodiadol.

Mae Cymru Greadigol wedi ymrwymo i dyfu'r diwydiant cerddoriaeth masnachol a bydd yn adeiladu ar lwyddiant mentrau cyfredol fel PRS Momentum; Forte a PYST fel y gallant barhau i ddarparu ar gyfer anghenion cerddoriaeth Cymru. Mae gan y corff rôl allweddol yn sicrhau y gall cerddoriaeth Gymraeg ddatblygu cyfleoedd masnachol, fel y gwelwyd eleni, lle mae'r ffocws o'r newydd ar fanteisio ar blatfformau digidol wedi arwain at dros 9 miliwn o ffrydiadau ar gyfer yr artistiaid sy'n cael eu dosbarthu gan PYST. Mae cerddoriaeth boblogaidd yn llawer mwy na diddordeb economaidd. Mae Cymru wedi bod yn adnabyddus erioed fel gwlad y gân ac mae cerddoriaeth yn gyswllt cynhenid â'n hunaniaeth ddiwylliannol. Rydym am weithio'n agos â'r diwydiant a phartneriaid allweddol er mwyn datblygu llwybrau effeithiol fel y gall pobl dalentog ddatblygu gyrfaoedd tymor hir yng Nghymru, fel y gellir cefnogi rhwydweithiau'r diwydiant a helpu'r diwydiant cerddoriaeth i dyfu'n organig, yn enwedig ar lawr gwlad.

Mae sector y diwydiannau creadigol eisoes wedi cael llwyddiant yng Nghymru ac mae ei gyfraniad uniongyrchol tuag at economi Cymru yn sylweddol. Er enghraifft, yn 2018-19 yn unig, roedd cynyrchiadau ffilm a theledu a gynhyrchwyd yma wedi golygu gwariant o £55 miliwn a mwy ar gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru. Mae effaith y llwyddiannau hyn yn ymestyn y tu hwnt i'r diwydiant i bob rhan o'n heconomi; mae'r sector lletygarwch, twristiaeth, adeiladu a chludiant oll yn cael budd o bresenoldeb sector diwydiannau creadigol sy'n llwyddiannus.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae cefnogaeth ar gyfer y diwydiannau creadigol wedi canolbwyntio ar yr is-sectorau hynny sy'n fwyaf tebygol o gael yr effaith economaidd mwyaf a darparu'r cyfleoedd gorau o ran twf y diwydiant. Nodwyd y rhain ar y pryd fel sgrin – yn benodol teledu o safon uchel – a'r cyfryngau digidol. Fodd bynnag, mae twf diweddar yn y diwydiant wedi newid y sefyllfa'n sylweddol ac mae'r sector mewn safle tyngedfennol gyda chyfleoedd a heriau'n cydgyfarfod. Mae hyn yn arwydd bod angen newid cyfeiriad ar gyfer y dyfodol, i gyfeiriad sy'n croesawu undod rhwng yr economi, diwylliant a doniau, sy'n wirioneddol draws-sector ac sy'n canolbwyntio fwy ar gefnogi twf o lawr gwlad i fyny. Mae'n rhaid i hyn adlewyrchu pwysigrwydd y Gymraeg i'r sector ac i'r broses o wireddu ein huchelgais ar gyfer y diwydiannau creadigol. Gyda'r cymorth cywir dros y blynyddoedd nesaf, rydw i'n hyderus y bydd twf a llwyddiant yn sylweddol, gan sicrhau mai Cymru yw'r wlad o ddewis er mwyn sefydlu a thyfu busnes creadigol ynddi, – rhywle ble mae doniau'n cael eu meithrin, sydd â chadwyni cyflenwi iach a ble mae cymorth ar gael i wireddu'r dyheadau hyn.

Ac mae hyn yn ein harwain at brif themâu fy uchelgeisiau ar gyfer sector y diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Yn gyntaf, adeiladu ar y camau mawr yr ydym wedi'u gwneud mewn blynyddoedd diweddar wrth dyfu'r sector, drwy **sefydlu Cymru Greadigol** fel swyddogaeth ar wahân o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn ein galluogi i fod yn fwy ymatebol a hyblyg i anghenion sector mor amrywiol. Bydd Cymru Greadigol yn sbarduno twf sector y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru gan ganolbwyntio mwy ar y rhanbarth a'r sector; bydd ein llwyddiannau mwyaf i'w gweld yn economaidd, fel cynnydd mewn trosiant, nifer y gweithwyr, nifer busnesau newydd, cadw eiddo deallusol a'r gwariant yn economi Cymru. Disgwylir i fanteision ehangach gynnwys cadwyn gyflenwi gryfach, gwelliannau mewn sgiliau a llwybrau mwy cynhwysol ar gyfer doniau – yn ogystal â manteision diwylliannol a chymdeithasol sylweddol y gellir eu cyflawni ac a fydd yn cael eu cyflawni diolch i weithgarwch Cymru Greadigol. Gan fod diwylliant a'r economi wedi cydblethu i'r fath raddau, byddwn yn cydweithio'n agos â sefydliadau eraill a phartneriaid allweddol er mwyn cefnogi a hyrwyddo nodau cyffredin.

Yn ail, sicrhau ein bod yn **datblygu'r sgiliau cywir** ar draws y sector i gefnogi twf parhaus, gan gydnabod na ellir gwneud hyn ar ein pennau ein hunain a bydd angen cydweithio agosach â'r diwydiant.

Yn drydydd, ac mewn cydweithrediad â'r diwydiant, **codi safonau a hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ar draws y sector**. Mae'n rhaid i hyn gynnwys datblygu ymrwymiadau ar gyfer pob partner mewn perthynas â chynhwysiant, cyflog teg ac arferion gweithio. Rydym ni, fel llywodraeth, yn

bwriadu sbarduno newid a bydd unrhyw gyllid yn y dyfodol ynghlwm ag ymrwymiad gan y diwydiant yn y meysydd hyn.

Yn bedwerydd, rydym yn symleiddio ein **cymorth cyllid** ar gyfer y diwydiant creadigol ac yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r ffaith bod y sector yn symud mor gyflym. Bydd ein holl gyllid yn cael ei ddarparu drwy gontract economaidd sy'n sicrhau ein bod yn cael elw da am fuddsoddiad cyhoeddus, cael rhywbeth yn ôl fel petai.

Yn olaf, yn seiliedig ar ein profiad gyda Croeso Cymru ac yn dilyn datblygu brand Cymru, byddwn yn arwain y gwaith o **farchnata a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i'r byd**, drwy'r brand Cymru Greadigol newydd. Drwy'r brand newydd hwn, byddwn yn hyrwyddo'r cyfraniad y mae'r sector creadigol yn ei wneud i'n henw da a'n llwyddiant byd-eang.

Mae'r themâu hyn oll yn dibynnu ar ei gilydd a bydd y dull integredig hwn yn sylfaen fel y gall y diwydiannau creadigol yng Nghymru barhau i ffynnu.

Gêmau Tiny Rebel



## Sefydlu Cymru Greadigol

Ym mis Ebrill 2016 roedd ymrwymiad maniffesto i sefydlu 'Cymru Greadigol', fel corff ar wahân i gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Y tu ôl i'r ymrwymiad hwn, roedd angen i gynnig gwasanaeth mwy syml, hyblyg ac arloesol i sector yn yr economi a oedd yn esblygu'n gyflym yng Nghymru.

Rydw i'n cydnabod bod y nodau y tu ôl i'r ymrwymiad hwn yn parhau'n ddilys, ond nid wyf yn grediniol bod angen corff hyd braich. Yn hytrach, rydym wedi sefydlu Cymru Greadigol fel asiantaeth fewnol sy'n seiliedig ar fodelau tebyg sydd yn fy mhortffolio sef Cadw a Croeso Cymru, lle gwelwyd nad yw cydweithio â'r Llywodraeth wedi llesteirio eu gallu i lwyddo yn eu meysydd penodol. Mae bod yn rhan o'r Llywodraeth yn golygu y gall Cymru Greadigol godi ei statws er mwyn cael yr effaith gorau bosibl.

Bydd Cymru Greadigol yn canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid ac yn adeiladu ar lwyddiannau blaenorol tîm diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru. Bydd yn wasanaeth Cymru gyfan gyda mwy o bresenoldeb a ffocws rhanbarthol yn ogystal â phresenoldeb amlycach a mwy hygyrch ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd ganddo frand cryf a fydd yn defnyddio platfformau digidol, cymdeithasol a'r cyfryngau i greu cymuned o ddylanwad yn ymwneud â'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Fodd bynnag, bydd angen hefyd newid pwyslais y cymorth y bydd yn ei ddarparu o ran y ffocws ar yr is-sector ac yn y mathau o gymorth a fydd yn ei gynnig. Yn y gorffennol, roedd y cymorth hwnnw'n bennaf ar ffurf cyllid i ffilm a theledu drwy grantiau a'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, ac roedd cymorth i'r sector gemau fideo, meddalwedd a'r sector digidol creadigol yn hanu o grantiau datblygu neu grantiau sy'n seiliedig ar greu swyddi. Bydd cynnal a chefnogi cyfres o gynyrchiadau ffilm a theledu a pharhau i osod Cymru fel prif leoliad ar gyfer cynyrchiadau yn parhau'n flaenoriaeth, ond hoffwn weld mwy o newid tuag at ddatblygu a chryfhau nifer y gweithwyr a'r gadwyn gyflenwi, a hefyd rhoi cefnogaeth i feysydd eraill, fel genres teledu eraill e.e. rhaglenni ffeithiol ac adloniant ysgafn, creu cynnwys digidol a cherddoriaeth fasnachol, fel y gallant hwy hefyd dyfu ar gyflymder tebyg.

Ni fydd Cymru Greadigol yn mynd ati'n rhagweithiol i gynnwys pob is-sector yn gyfartal ac yn y tymor byr mae yna feysydd blaenoriaeth clir:

- —Cydnabod rôl bwysig gwasanaethau ac asiantaethau creadigol yn darparu meithrinfeydd talent, swyddi parhaol a buddsoddiad ymchwil a datblygu; yn ogystal â darparu allbwn creadigol pwerus eu hunain.
- —Bydd cymorth Cymru Greadigol yn canolbwyntio ar gyfleoedd a gyflwynir gan blatfformau digidol – gan adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol popeth digidol ar draws yr holl is-sectorau perthnasol.
- —Datblygu ymhellach y gadwyn gyflenwi ffilm a theledu, gan gynnwys ôl-gynhyrchu a diwydiannau VFX, a pharhau i roi Cymru ar y brig fel y lleoliad delfrydol ar gyfer cynhyrchu ffilm a theledu o safon uchel.
- —Cymorth i bobl sy'n creu cynnwys creadigol sy'n manteisio ar dechnoleg, yn cynnwys animeiddio a gemau.
- —Cymorth a arweinir gan y diwydiant er mwyn gwella llwybrau i yrfaoedd hyfyw yn y diwydiant cerddoriaeth.

Er enghraifft, mae rhannau o’r sin gerddoriaeth fyw ledled Cymru wedi bod dan fygythiad yn ystod blynyddoedd diweddar ac mae nifer o leoliadau llawr gwlad wedi cau. Hoffwn ystyried ffyrdd y gall cymorth wedi’i dargedu helpu i sicrhau dyfodol llewyrchus a chynaliadwy iddynt hwy. Rydym angen bod yn ymwybodol hefyd bod cryfder masnachol angen ei gydnabod a’i gefnogi mewn meysydd eraill o’r diwydiannau creadigol. Gan ystyried twf diweddar ac effaith gwerthiant byd-eang cwmnïau fel Hiut Denim a Spectrum Collections yn y diwydiant ffasiwn, mae’n amlwg ei bod yn bwysig meithrin a hyrwyddo mwy o’r straeon llwyddiannus hyn. Mae’n rhaid i ni dderbyn hefyd nad y sectorau a oedd yn gryf yn y gorffennol fydd sectorau cryf y dyfodol o reidrwydd.

Bydd angen i ni fod yn ddigon ystwyth hefyd i gydnabod pan fo blaenoriaethau’n newid, gan gadw’r ffocws ar yr effaith economaidd, twf y diwydiant, cyflog teg, amodau gweithio a marchnadoedd byd-eang. Dyna pam yr hoffwn i Cymru Greadigol archwilio cyllid hyblyg sydd wedi’i deilwra i anghenion y sector ac sy’n gallu ymateb i’r modelau busnes amrywiol yn y sector. Drwy hyn, nid wyf yn golygu, yn syml, newid cyllid presennol Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru’n parhau i gefnogi prosiectau buddsoddi allweddol, ond rydym angen archwilio ffrydiau cyllid eraill hefyd, a chynnig gwasanaeth broceru a chyfeirio at feysydd cymorth eraill. Gall rhwydweithio a helpu i gysylltu busnesau fod yr un mor effeithiol â chyllid uniongyrchol i gefnogi twf pellach.

Er y bydd Cymru Greadigol yn gweithredu o fewn y llywodraeth, bydd wedi’i strwythuro fel asiantaeth fewnol gyda golygon, gwerthoedd a hyblygrwydd tebyg i asiantaethau mewnol eraill y llywodraeth, fel Cadw a Croeso Cymru.

Rydw i wedi gofyn i’m swyddogion weithio ar ddatblygu fframwaith a strwythur newydd ar gyfer Cymru Greadigol er mwyn sicrhau y gall ddarparu’r cydbwysedd cywir o arbenigedd y diwydiant a chymorth a chyngor i Weinidogion. Byddaf am sicrhau bod Cymru Greadigol wedi’i strwythuro i dderbyn yr adborth gorau o sector y diwydiannau creadigol, a byddwn yn sefydlu a chefnogi grŵp sy’n cynrychioli’r diwydiant, wedi’i ddewis o’r byd masnach a diwydiant i siarad ar ran y sector a’i fuddiannau gorau ac i weithio ar draws y sector yn wirioneddol. Mae’r dull hwn yn efelychu dull y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol sydd wedi gweithio’n wych yn y sector hwnnw, ac rydw i’n sicr y bydd y dull hwn yn llwyddo ar gyfer y diwydiannau creadigol.

Bydd Cymru Greadigol yn cydweithio’n agos â Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (PSBs) yng Nghymru hefyd. Mae eu heffaith economaidd yn sylweddol ac wedi bod yn hanfodol i dwf y diwydiannau creadigol yng Nghymru mewn blynyddoedd diweddar. Mae’n hanfodol bod hyn yn parhau.

Yn ogystal â bod yn rhan hanfodol o’n diwydiannau creadigol llewyrchus, mae PSBs wedi bod â rôl bwysig ym mywyd dinesig Cymru ac yn cyfrannu’n sylweddol at y dirwedd ddiwylliannol, gymdeithasol a gwleidyddol. Mae ganddynt rôl hanfodol hefyd yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg a’r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i’r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru drwy Gyngor Llyfrau Cymru hefyd yn allweddol o ran darparu strategaeth y Gymraeg, yn ogystal â chefnogi sector yr iaith Saesneg. Cymru Greadigol fydd yn ymwneud fwyaf â Chyngor Llyfrau Cymru wrth symud ymlaen.

Mae cefnogi diwydiant cyhoeddi dwyieithog llwyddiannus yng Nghymru nid yn unig yn gwneud cyfraniad i’n strategaeth twf economaidd ehangach ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru, ond mae’n cefnogi hefyd nifer o fentrau microfusnes sydd yng nghefn gwlad Nghymru yn bennaf ac sy’n cyfrannu at eu heconomi leol.



## Datblygu'r sgiliau a'r doniau cywir

Gyda diwydiant sy'n tyfu mor gyflym yng Nghymru, mae'n bwysig ein bod yn gallu bodloni'r galw cynyddol am weithlu medrus. Bydd Cymru Greadigol yn canolbwyntio ar gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu a chynyddu sgiliau gan gynnwys sefydlu llwybr mynediad cryf ar gyfer doniau'r dyfodol a chwilio am ffyrdd y gellir defnyddio cyllid i gefnogi cyfleoedd hyfforddi a datblygu pwrpasol.

Gwyddom na ellir cynnal momentwm y twf yn y diwydiant sgrin oni bai bod yna gymorth i ddatblygu sgiliau'r diwydiant a gwella'r llwybr ar gyfer doniau. Rydym eisoes wedi ymateb i'r her hon mewn sawl ffordd, fel ariannu nifer o leoliadau gwaith dan hyfforddiant ar sail llawn amser, prosiectau theatr ieuenctid a chymorth i gynyddu amrywiaeth y diwydiant sgrin yng Nghymru. Yn ddiweddar, ar y cyd â ScreenSkills, rydym wedi ariannu Sgil Cymru i ddarparu rhaglen newydd o'r enw Camu Fyny ar gyfer 2019, pan fydd 20 o bobl yn cael eu hyfforddi i fynd â'u gyrfa ym myd ffilm a theledu i'r lefel nesaf.

Nid ydym yn buddsoddi mewn prosiectau sgrin bellach oni bai bod gan y cwmni cynhyrchu ymrwymiad i hyfforddi ac uwchsgilio ar y cynhyrchiad. Bydd hyn yn parhau dan Cymru Greadigol.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y sylfeini hyn ac mae lansio Cymru Greadigol yn rhoi cyfle i ni adolygu a chynorthwyo ymhellach gyda'r broses o ddarparu mentrau sgiliau a hyfforddi ar draws y sector cyfan, gan fanteisio i'r eithaf ar effeithiolrwydd y llwybrau ar gyfer doniau i sector y diwydiannau creadigol. Un o'r pethau cyntaf i'w gwneud fydd datblygu strategaeth sgiliau ar gyfer y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru a bydd swyddogaeth sgiliau benodedig yn Cymru Greadigol i gefnogi'r diwydiant.

Gwyddom fod sgiliau'n hanfodol i dwf parhaus gan eu bod yn sail i arloesedd, entrepreneuriaeth ac amrywiaeth. Mae rolau yn y sector creadigol yn fwy a mwy amlochrog ac yn aml iawn mae gofyn cael set sgiliau eang fel y gellir eu haddasu i ddatblygiadau parhaus ym maes technoleg a'r ffaith bod pethau'n digwydd ar lefel byd-eang. Mae galw cynyddol hefyd am sgiliau digidol, marchnata, cyfathrebu ac ariannol er mwyn galluogi busnesau, busnesau bach a chanolig gan fwyaf, i barhau'n gynaliadwy.

Bydd angen i Cymru Greadigol gydweithio â chydweithwyr yn adran addysg a sgiliau Llywodraeth Cymru, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a chynrychiolwyr y diwydiant i ystyried effeithiolrwydd y ddarpariaeth gyfredol a gofynion yn y dyfodol. Bydd ymarfer mapio'n cael ei wneud hefyd, gan weithio gyda'r diwydiant, i asesu'r bylchau a'r ffyrdd gorau o'u targedu. Bydd hyn yn cynnwys cydweithio â menter dysgu CULT Cymru yr undeb llafur BECTU a ariennir drwy Gronfa Dysgu Undebau Cymru Llywodraeth Cymru ac sy'n gweithio mewn partneriaeth ag undebau cyswllt Equity, Undeb y Cerddorion ac Urdd Awduron Prydain Fawr. Mae'n darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu gan gynnwys hyfforddiant busnes, digidol ac ymarferol, cymorth un wrth un a digwyddiadau pwrpasol ar gyfer gweithwyr creadigol ledled Cymru er mwyn eu galluogi i barhau a datblygu yn eu gyrfaoedd.

## Gwella safonau a gweithio mewn partneriaeth

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y sector yn un lle mae pawb, waeth beth fo'u hamgylchiadau neu gefndir, yn cael mynediad i gyfleoedd ac yn ffynnu; diwydiant amrywiol lle mae gwaith yn deg a gweithleoedd yn gynhwysol. Byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, o gynrychiolwyr y diwydiant i undebau llafur, ac yn gweithio mewn gwir bartneriaeth â nhw, er mwyn adeiladu ar ein llwyddiannau a chyfrannu at yr agenda gwaith deg. Byddwn yn manteisio ar gynigion Llywodraeth Cymru i gryfhau trefniadau partneriaethau cymdeithasol drwy fframwaith cyfreithiol clir er mwyn sicrhau bod Cymru Greadigol yn llais sy'n cynrychioli'r sector yn y llywodraeth, yn ogystal ag yn llais y llywodraeth yn y sector.

Hyd yma, mae llwyddiant y diwydiannau creadigol yng Nghymru wedi bod yn seiliedig ar sylfaen o waith partneriaeth llwyddiannus. Roedd hyn yn amrywio o drefniadau ariannu sy'n denu cyllid ychwanegol i Gymru i gydweithio â sefydliadau sy'n dwyn ynghyd pobl ac arbenigedd o'r diwydiant er budd y sector cyfan. Er enghraifft, rydym wedi bod yn cydweithio â Bafta Cymru er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru ac i arddangos rhai o'r llwyddiannau.

Mae ein partneriaeth bresennol gyda Clwstwr yn sicrhau bod effaith cyllid ymchwil a datblygu Llywodraeth y DU yn y diwydiannau creadigol yn cael ei gynyddu, yn arbennig trwy ein cefnogaeth ar gyfer cynlluniau grant i fusnesau sy'n rhan o Clwstwr.

Partneriaeth lwyddiannus arall yw PYST, menter a gyllidir ar y cyd rhwng y diwydiannau creadigol ac isadrannau'r Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru fel y gwasanaeth dosbarthu a labelu digidol cyntaf ar gyfer cerddoriaeth Gymraeg yn bennaf. Hyd yma, mae artistiaid a labeli a ddosbarthwyd gan PYST wedi cael eu ffrydio dros 9 miliwn o weithiau ar draws yr holl blatfformau digidol. Alffa, deuawd ifanc o Lanrug sy'n canu miwsig roc blues oedd yn gyfrifol am dros 3 miliwn o'r ffrydiadau hynny, a'r rhan fwyaf ohonynt yn rhyngwladol. Mae 40 a mwy o labeli Cymru eisoes yn defnyddio'r gwasanaeth ar gyfer rhyddhau cerddoriaeth newydd a chatalogau a gwelwyd cynnydd yn yr incwm ffrydio iddynt hwy a'r artistiaid. Erbyn hyn mae PYST yn sefydlu gwasanaeth archebu a chydgysylltu cerddoriaeth fyw ac mae'n darparu teithiau misol gan gydweithio â nifer o brif wyliau a hyrwyddwyr Cymru. Mae'r gwaith hwn yn digwydd yng Nghymru a thu hwnt mewn sioeau a digwyddiadau rheolaidd. Mae PYST yn treialu taith fisol o dri pherfformiwr/perfformiad Iaith Gymraeg hefyd sy'n ymweld â Glasgow, Manceinion a Llundain gan weithio law yn llaw â hyrwyddwyr yn y marchnadoedd hynny.

Bydd meithrin partneriaethau llwyddiannus a chefnogi gweithio cydweithredol yn elfen bwysig ar gyfer twf yn y dyfodol ac i sicrhau bod y sector a'i ddoniau'n cael eu meithrin i gynrychioli'r diwydiannau creadigol yn ei ystyr ehangaf. Nid darparu cyllid uniongyrchol i brosiect yw'r ateb bob amser. Hoffwn weld Cymru Greadigol yn gwneud mwy er mwyn rhoi gwybodaeth ac arweiniad i gwmnïau yng Nghymru i'w helpu i ganfod marchnadoedd newydd gartref a thramor. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaeth rhwydweithio a gwneud cysylltiadau rhwng busnesau, gweithwyr llawrydd a rhanddeiliaid eraill er mwyn cau bylchau a galluogi pobl i gydweithio. Bydd hyn yn cefnogi gofodau creadigol hefyd ac yn ei gwneud yn bosibl i ddefnyddio'r arferion gweithio entrepreneuraidd sy'n ofynnol yn yr economi lawrydd gan rymuso'r sector i ymateb yn gyflym i gyfleoedd newydd wrth iddynt ddatblygu.

Gŵyl Cerddoriaeth SWN 2016, Caerdydd



## Symleiddio modelau cyllid er mwyn ymateb i'r sector

Bydd modd i Cymru Greadigol gynnig cymorth ariannol. Bydd yn parhau i gynnig cyllid pan fo tystiolaeth bod y farchnad yn methu neu os oes angen cymorth strategol gan y llywodraeth a bydd ganddo gyllideb flynyddol benodedig i fuddsoddi mewn cyfleoedd economaidd pellach.

Rydym yn cydnabod bod rhan helaeth o sector y diwydiannau creadigol yn llawrydd/ hunangyflogedig a bydd twf parhaus y sector yn dibynnu ar amrywiaeth o fodelau ariannu gwahanol. Rydw i'n awyddus i gyllid y dyfodol fod yn hyblyg ac y bydd penderfyniadau'n ystwyth, gan ddangos mwy o awch am risg ac y bydd yn sicrhau y gellir datblygu a chadw eiddo deallusol yn y sector yng Nghymru. Mae'n rhaid i'r amser a dreulir yn gwneud penderfyniadau cyllid fod yn gymesur i lefel y cyllid y gwneir cais amdano a'r risgiau cysylltiedig.

Bydd cymorth yn parhau i gynnwys ymyrraeth uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru drwy amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys grantiau a nawdd. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried hefyd ffrydiau cyllid eraill sydd ar gael i'r sector fel Banc Datblygu Cymru, cyllid y sector preifat a'r trydydd sector a bydd rôl Cymru Greadigol yn helpu i hwyluso'r partneriaethau ariannol hyn.

Pan fo busnesau'n chwilio am gymorth ariannol uniongyrchol gan Cymru Greadigol, bydd gofyn iddynt ymrwymo i Gontract Economaidd gyda'r nod o ysgogi twf, cynyddu cynhyrchiant a gwneud Cymru'n decach a mwy cystadleuol. Un prif ystyriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru drwy Cymru Greadigol fydd gweld unigolion yn cael cyflogaeth deg ac amodau a thelerau teg.

## Marchnata a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i'r byd

Fel rhan o ddatblygiad Cymru Greadigol, bydd fy swyddogion yn gwneud ymarfer brandio, gan adeiladu ar deulu brand Cymru Wales a chodi statws a chryfderau Cymru yn y sector.

Mae Cymru eisoes yn enwog yn rhyngwladol am ei gwaith rhagorol ym myd teledu a ffilm, gyda chynyrchiadau fel *Doctor Who* a *Sherlock* sy'n bodoli ers blynyddoedd ac sy'n cael eu cydnabod ar draws y byd. Yn fwy diweddar, mae cynyrchiadau llwyddiannus fel *A Discovery of Witches*, *Their Finest* a *Journeys End* wedi cael canmoliaeth fawr ac wedi helpu i godi safle Cymru yn y farchnad ryngwladol. Heb amheuaeth, mae cydweithio â phartneriaid rhyngwladol allweddol fel Pinewood wedi cyfrannu at y llwyddiant hwn.

Ar gyfer prosiectau sgrin yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad sylweddol gan farchnadoedd tramor. Mae cymhelliannau treth y DU yn golygu bod y DU yn ddeniadol iawn i gynyrchiadau sy'n bwriadu ffilmio yma. Mae Cymru wedi bod mewn sefyllfa unigryw i gael budd o hyn, ac mae'n parhau i fod felly, oherwydd ein cymhelliannau ariannol ardderchog, y ffaith ein bod mor agos at ddinasoedd mawr fel Llundain, Bryste, Lerpwl a Manceinion a'r amrywiaeth o leoliadau posib sydd â chestyll, traethau a dinasoedd mor agos at ei gilydd.

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y sector cynhyrchu yng Nghymru'n parhau i ffynnu. I wneud hyn mae'n rhaid i ni gael cydbwysedd rhwng cefnogi cynyrchiadau lleol, buddsoddi mewn cynyrchiadau mawr sy'n dod i Gymru a buddsoddi mewn doniau, datblygu talent a seilwaith. Byddwn yn ceisio gwneud hyn, er enghraifft, drwy'r telerau cyllid yr ydym yn eu cynnig i brosiectau sydd naill ai'n hybu diwylliant Cymru neu'n ymrwymo i ddefnyddio a hyrwyddo doniau o Gymru.

Rydym wedi cael profiad uniongyrchol o weld pa mor gyflym y mae technoleg ddigidol yn datblygu a'r ffordd y maen nhw'n chwalu rhwystrau o ran mynediad i farchnadoedd byd-eang. Mae'r cyfryngau digidol wedi gweld llwyddiant sylweddol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, gan roi Cymru ar y map. Mae cymorth wedi'i roi i asiantaethau digidol, cwmnïau datblygu meddalwedd, cwmnïau gemau a chyfryngau rhyngweithiol ac rydym wedi meithrin cysylltiadau cryf â chlystyrau sy'n dod i'r amlwg a chyrff cynrychioladol fel yr UK Digital Knowledge Transfer Network. Mae hyn wedi creu cyfleodd i arddangos yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig mewn digwyddiadau rhyngwladol fel y Games Developer Conference yn San Francisco, a Gamescom yn Cologne.

Mae'r diwydiannau creadigol yng Nghymru yn gyfrwng da i hyrwyddo Cymru yn y byd – nid yn unig fel canolfan ar gyfer rhagoriaeth greadigol, ond hefyd fel gwlad wych i ymweld â hi, i fyw ynddi ac i weithio ynddi. Caiff lleoliadau eu harddangos drwy gynyrchiadau ffilm a theledu a wneir yma, ac mae ein doniau byd-eang ar draws y sector yn creu diddordeb yng Nghymru fel gwlad sy'n gyfoeth o ddiwylliant.

Erbyn hyn mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn parhau i hyrwyddo ein doniau lleol, ond hefyd sicrhau bod y cymorth cywir yn ei le fel y gall busnesau Cymru fanteisio i'r eithaf ar eu cynhyrchion a'u gwasanaethau, nid yn unig yn rhyngwladol ond ym marchnadoedd allweddol y DU hefyd. Er mwyn gwneud hyn, byddwn angen defnyddio dull gwirioneddol traws sector, gan ehangu ein cyrhaeddiad i'r sectorau hynny fel cerddoriaeth, hapchwarae a ffasiwn drwy ymgyrchoedd a gwaith hyrwyddo blynyddol sy'n llawn ffocws.

Greenman



## Casgliadau

Rydym wedi cyflawni llawer yn ystod y blynyddoedd diweddar ac erbyn hyn mae gennym y cyfle i sicrhau twf pellach. Byddwn angen parhau i fuddsoddi mewn cael buddsoddiadau mewnol a sicrhau bod y cymorth priodol ar gael i helpu busnesau creadigol sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru i fanteisio ar y cyfleoedd sydd wedi cael eu creu yn sgil ein llwyddiannau diweddar. Mae Cymru'n lle sy'n llawn ysbrydoliaeth ac uchelgais. Hoffwn sicrhau y gall y ddawn greadigol barhau i ffynnu yma a bod syniadau creadigol yn arwain at lwyddiant economaidd.

Stiwdio'r Wolf (© Bad Wolf a Alex Bailey)



OGL WG38981 / © Hawlfraint y Goron 2020